

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhif 2 2018
www.flvc.org.uk



Volfest '18

*Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a Chymunedol*



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint


- 2 Yn y Rhifyn Hwn
- 3 Nodiadau Gan Ann
- 4 Cyfarfodydd Rhwydwaith FLVC
- 5 Newyddion Cymunedol
- 7 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 8 Newyddion FLVC
- 9 Ariannu
- 10 Gwirfoddoli
- 12 Llywodraethu Da

*Gallwch fod
yn rhan o'r
cylchlythyr hefyd!*

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna eboitiwch eich erthygl atom:
Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu, Corlan,
Parc Business yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP
info@flvc.org.uk
01352 744000

Fuasech chi'n fodlon derby nein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost ?

Bydd copiau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copiau called. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost jane.hewson@flvc.org.uk



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu gwrpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Croeso i rifyn diweddaraf o'r Llais Gwirfoddol.

Rhan allweddol o swyddogaeth FLVC ydy rhannu gwybodaeth – rhannu ymarfer da, rhannu cyfleoedd ar gyfer dulliau ar y cyd a rhannu newyddion da! Gobeithio eich bod chi wedi mynd ati i ddiweddarau'ch gosodiadau preifatrwydd er mwyn rhoi gwybod ydych chi eisiau parhau i dderbyn gwybodaeth gan FLVC drwy ein e-fwletinau, yn unol â'r canllawiau GDPR newydd. Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ddaeth i rym ar Fai'r 25ain 2018 yn effeithio holl fudiadau Trydydd Sector sy'n cadw a phrosesu data personol buddiolwyr, cyfrannwyr ariannol, staff a gwirfoddolwyr. Ar yr adeg caiff hwn ei argraffu, mae'r WCVA (mudiad Cefnogaeth Trydydd Sector Cenedlaethol Cymru) yn datblygu ystod o dempledi i helpu mudiadau Trydydd Sector i ddygymod â'r newidiadau. Cysylltwch gyda'r WCVA ar 01745 357540 neu cysylltwch gyda'n tîm am ddolenni / mwy o wybodaeth.

.....

Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Cofiwch ychwanegu dyddiad ein Cyfarfod Blynyddol i'ch dyddiadur – dydd Iau, Medi'r 13eg am 6yh yn Theatr Clwyd (RSVP). Mae ychydig o swyddi gwag ar ein Bwrdd eleni – hoffai'ch mudiad chi eich enwebu chi i gynrychioli'r Trydydd Sector fel Ymddiriedolwr FLVC? Hoffem ddenu pobl o bob cwr o'r Sir, o wahanol gefndiroedd ac yn ffafriol yn meddu ar brofiad o weithio yn y sector gwirfoddol, i fod ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae angen pobl arnom sy'n dymuno gweld y sector gwirfoddol yn datblygu mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol ac a fydd yn cynnig eu hamser, gwybodaeth a phrofiad i gefnogi gwaith y mudiad. Buasai'r sgiliau a phrofiad canlynol yn ddefnyddiol: cefnogi staff a gwirfoddolwyr, rheoli cyllid, hyfforddiant, llywodraethu, cynllunio strategol, marchnata / cyhoeddusrwydd, codi arian a materion yn ymwneud ag anabledd. Hefyd buasai'n fuddiol tasai gan yr unigolion gyswllt cadarn gyda chymunedau a gwasanaethau lleol. Hoffai FLVC hefyd fanteisio ar ymddiriedolwyr gyda phrofiad entrepreneuriaidd a phrofiad yn y maes busnes. .

.....

Sut i ddod yn Ymddiriedolwr

Mae cyfle i bob mudiad gwirfoddol sy'n aelod o FLVC enwebu un ymgeisydd i'w hethol fel ymddiriedolwr yn y Cyfarfod Blynyddol. Os oes mwy o ymgeiswyr na seddi gwag ar y bwrdd, yna bydd pleidlais gudd yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae gofyn i bob ymgeisydd a mudiad sy'n enwebu gwblhau'r ffurflen enwebu gaiff ei hanfon at holl fudiadau aelod yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rhowch alwad imi os hoffech chi wybod mwy a/neu yn dymuno dysgu mwy am waith FLVC.

Cofion gorau

Ann



Chief Officer
01352 744028

ann.woods@flvc.org.uk

Gwobr Tom Jones am Waith Gwirfoddol Rhagorol gan Berson Ifanc

Ydych chi'n gwybod am berson ifanc fu wrthi'n cyfrannu'n sylweddol drwy waith gwirfoddol / cymunedol yn Sir y Fflint?

Hoffech chi eu henwebu am wobwr yn ein Cyfarfod Blynyddol?

Os felly, cysylltwch â Jane neu aelod o'r Ganolfan wirfoddoli am gopi o'n ffurflen enwebu new e-bost info@flvc.org.uk

**FLVC, Corlan, Uned 3 Parc Busnes Yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug CH7 1XP
01352 744000**

	Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli	Rhwydwaith Lles N.E.W.	Rhwydwaith Ymddiriedolwyr	Digwyddiad / Rhwydwaith Blynyddol
Awst				
Medi	19 Medi 2018 9.30yb-12.30yp Llyfrgell yr Wyddgrug	13 Medi 2018 Sir Y Fflint (Lleoliad i'w gadarnhau)		13 Medi 2018 Cyfarfod Blynyddol FLVC 6.00 yh Theatr Clwyd
Hydref	Hydref yr 22ain 2018 9.30yb-12.00yp Corlan		16 Hydref 2018 Corlan	
Tachwedd		8 Tachwedd 2018 Wrecsam (Lleoliad i'w gadarnhau)		Tachwedd 2018 Cynhadledd y Trydydd Sector
Rhagfyr				
Ionawr	31 Ionawr 2019 9.30yb-12.30yp Llyfrgell y Fflint			
	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Trefnwyr Gwirfoddoli cysylltwch gyda Janet Owen ar 01352 744016	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Lles, cysylltwch gyda Karen Peters ar 01352 744015	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Ymddiriedolwyr, cysylltwch gyda Shaun Darlington ar 01352 744027	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Blynyddol, cysylltwch gyda Jane Hewson ar 01352 744030

Hwb Help Cynnar – Cyfleuster Newydd ar Agor Nawr

Mae cyfleuster “arloesol” newydd, a fydd yn help i Deuluoedd Sir y Fflint, wedi agor erbyn hyn.

Bu i Gyngor Sir y Fflint groesawu Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, i lansio Hwb Help Cynnar newydd y sir yn ddiweddar.

Dywedodd siaradwr ar ran Cyngor Sir y Fflint “Cafodd y fenter arloesol hon ei chomisiynu gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a'i nod ydy cynnig cefnogaeth fwy amserol a chydlynol i deuluoedd gydag anghenion mwy sylweddol. Bu i'r lansiad ddathlu llwyddiannau'r hwb hyd yn hyn gan rannu straeon cadarnhaol am sut fu inni gydweithio i gefnogi teuluoedd gyda 2 neu fwy Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE's).

Er mwyn ategu at lansiad yr Hwb Help Cynnar, mae FLVC yn cynnig cynllun gwirfoddoli gyda chefnogaeth yn benodol ar gyfer pobl ifanc yn byw yn Sir y Fflint. Mae'r prosiect Pobl Ifanc ar gyfer pobl 14 – 25 oed ac mae'n ffordd wych o gydweithio gyda'r gymuned ac ennill cymhwyster achrededig yr un pryd.

Rhieni Plant Gydag Awtistiaeth yn Gofalu Gyda'i Gilydd (PACT) – Grŵp Cefnogi Pobl Gydag Awtistiaeth

Mae grŵp o rieni sydd â phlant gydag awtistiaeth, gyda chefnogaeth Action for Children, yn cynnal grŵp sy'n arbennig ar gyfer cefnogi rhieni a gofalwyr eraill gyda phlant / pobl ifanc gydag awtistiaeth / tueddiadau awtistig.

Bydd cyfarfodydd 2018 yn Neuadd y Grosvenor, Yr Wyddgrug, CH7 1EJ o 10 yb – 12 yp ar foreau lau :

Medi'r 13eg a'r 27ain

Hydref yr 11eg a'r 25ain

Tachwedd yr 8fed a'r 22ain

Rhagfyr y 13eg

I wybod mwy, ffoniwch

07544 285473 neu anfonwch

e-bost at parentsofautismcaring@gmail.com



Cist Gymunedol Sir y Fflint - Dangerpoint

Caiff Cynllun Grant Gist Gymunedol Sir y Fflint ei weinyddu gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) ar ran Cyngor Sir y Fflint.


Cafodd y Grant ei lansio er mwyn cefnogi gwaith cymunedol a gwirfoddol yn Sir y Fflint yn ogystal ag unrhyw fudiadau cymunedol / gwirfoddol nid er elw yn gweithio neu'n cynnig gwasanaethau yn Sir y Fflint. Mae hawl gan gyrff annibynnol, statudol neu gyhoeddus geisio.

Dywedodd siaradwr ar ran Dangerpoint, un o'r buddiolwyr diweddaraf, "Rydym yn ddiolchgar dros ben i Gist Gymunedol Sir y Fflint am y gefnogaeth ariannol gyda'r prosiect hwn. Bu'n help i'r tîm brynu'r sgrin ryngweithiol er mwyn datblygu app gwydnwch plant a bydd yn help gyda datblygiadau pellach sydd ar waith ar hyn o bryd.

Mae meddalwedd "Snowflake" wedi ei osod ar y sgrin ryngweithiol ac mae'n gyfle i ddefnyddwyr lunio eu gwersi eu hunain (yn debyg i App) ar gyfer cleientiaid y ganolfan. Diben yr App oedd cynllunio gwersi cwbl ryngweithiol lle mae modd i ddefnyddwyr ddysgu am Dywydd Difrifol ac Argyfyngau er mwyn gofalu eu bod yn fwy ymwybodol a pharod ar gyfer y dyfodol.

I wybod mwy am y Cist Gymunedol Sir y Fflint cysylltwch gyda:

Heather Hicks, FLVC, on **01352 744004**.





INVITATION GWAHODDIAD

Flintshire Local Voluntary Council 21st Annual General Meeting

The Clwyd Room, Theatr Clwyd, Mold

Thursday 13th September 2018
6.00pm for 6.45pm

Please join us for a light buffet at 6.00pm
before the meeting commences.

RSVP by Thursday 6th September 2018 to:
Flintshire Local Voluntary Council, Corlan, Unit 3, Mold Business Park,
Wrexham Road, Mold CH7 1XP Tel: 01352 744000 Email: info@flvc.org.uk

Cyfarfod Blynyddol Rhif 21

Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint

Ystafell Clwyd, Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

Dydd Iau Medi'r 13^{eg} 2018
6.00yh ar gyfer dechrau am 6.45yh
Dewch draw i ymuno gyda ni am fwffe ysgafn
am 6.00yh cyn y cyfarfod.

RSVP erbyn Dydd Iau Medi'r 6^{fed} 2018 to:
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Corlan, Uned 3,
Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug CH7 1XP
Rhif Ffôn: 01352 744000 E-bost: info@flvc.org.uk

Cyrsiau Hyfforddi FLVC

Bydd y cyrsiau canlynol yn y Gorlan, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug CH7 IXP.

Diogelwch Bwyd Lefel 2 mewn Arlwyio

Awst yr 2il 2018

Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gweithle

Tachwedd y 1af 2018

Tystysgrif Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc

Tachwedd y 12fed/13eg 2018

Makaton

Dyddiad i'w gadarnhau

Cwrs Gloywi Makaton

Dyddiad i'w gadarnhau

Sesiwn Ymwybyddiaeth ar Wrthderfysgaeth

Dyddiad i'w gadarnhau

Diogelu

Dyddiad i'w gadarnhau

Using Digital Health and Wellbeing

Dyddiad i'w gadarnhau

Diogelu ar gyfer Mudiadau

Dyddiad i'w gadarnhau

Cwrs Diogelu Sylfaenol Ledled Cymru –

Fersiwn 3

Dyddiad i'w gadarnhau

DEFNYDDIO GWIRIADAU Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD

Dyddiad i'w gadarnhau

Cyngor ar Ddyledion a Budd-daliadau

Dyddiad i'w gadarnhau

Os hoffech chi gadw lle ar unrhyw un o'r cyrsiau hyn, cysylltwch gyda jane.hewson@flvc.org.uk

Cyfarfod Rhwydwaith Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr

Ar ddydd Mawrth, Mai'r 22ain, bu cyfarfod Rhwydwaith Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr yn FLVC yn ymwneud â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae hwn yn bwnc pwysig a bu chwech ar hugain unigolyn o wahanol fudiadau ledled y sir yn bresennol.

Bu i Claire Sumner a Juana Eastwood o Gwmni Cyfreithwyr Swayne Johnson a Jane Tweedie o Gwmni Cyfrifwyr Whittingham Riddell gynnal yr hyfforddiant.



Cyfeiriadau Cyswllt:

Claire Sumner

Juana Eastwood

law@swaynejohnson.com

www.swaynejohnson.com



Jane Tweedie

jtweedie@wrllp.co.uk

whittinghamriddell.co.uk



Gwelwch hefyd y daflen wybodaeth ar wefan FLVC:

<http://www.wcva-ids.org.uk/flvc/1116>

FLVC yn croesawu aelodau staff newydd :

- Heather Hicks fel ein Swyddog Ariannol,
- Debbie Long fel ein Swyddog Datblygu Gwirfoddoli (Pobl Ifanc) a
- Hayley Hill fel y Rheolwr Llesiant ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint, yn cydweithio gyda FLVC ac AVOW.

Hefyd, bu lansiad swyddogol yr Hwb Help Cynnar ar ddydd Gwener, Mehefin yr 8fed 2018 a bu inni groesawu ein Cydlynnydd Hwb Trydydd Sector, Claire Trevor i'r tîm aml-asiantaeth hwn ac i'r Gorlan.

Wrth groesawu wynebau newydd, rydym yn ffarwelio gydag Emma Gough sy'n gadael Tîm y Ganolfan Wirfoddoli er mwyn dilyn gyrfa yn y maes Gwaith Cymdeithasol. Dymuniadau gorau oll i bawb yn eu swyddi newydd.

Camu at Wirfoddoli



Cynllun Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth Ar gyfer oedolion gydag anawsterau dysgu a / neu gyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

BYDD Y CWRS NESAF AR

DDYDD LLUN, MEDI'R 24ain

RYDYM YN RECRIWTIO NAWR

Cysylltwch: jill.blandford@flvc.org.uk (01352 744001)

neu chris.ablett@flvc.org.uk

(01352 744019)



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Cronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia

Mae elw o'r hen Gronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia wedi creu cronfa Grant i gefnogi gweithgareddau cymunedol unigryw yn ac o amgylch ardal Yr Wyddgrug. Mae gweithgareddau cymwys yn cynnwys:

- Prosiectau cyfalaf
- Digwyddiadau cymunedol
- Offer
- Cyhoeddusrwydd/Marchnata ar gyfer digwyddiadau cymunedol
- Digwyddiadau/cyrsiau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yng nghôd post CH7 ac o fewn radiws 5 milltir i'r Wyddgrug.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ail rownd o geisiadau ydi'r 31ain o Awst, 2018.

Nodwch, dim ond swm penodol o arian sydd ar gael. Gall ymgeiswyr gael mwy o wybodaeth drwy gysylltu gyda Heather Hicks ar

01352 744004 neu

anfon e-bost at : funding@flvc.org.uk

Sefydliad y Teulu Williams

Mae Sefydliad y Teulu Williams yn rhoi grantiau i elusennau lleol sy'n cefnogi pobl ddifreintiedig, gyda'r nod o wneud eu bywydau'n well. Mae'n well ganddynt gefnogi elusennau sy'n helpu pobl mewn angen, gan gynnwys pobl ifanc, yr henoed, pobl gydag anableddau dysgu neu gorfforol, a phobl wael eu hiechyd. Mae grantiau'n cael eu dyfarnu i Elusennau Cofrestredig sy'n gweithio yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a Swydd Gaer yn unig. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau fydd o fantais i'w grwpiau targed ac sy'n cael effaith bositif ar fywydau'r unigolion hyn.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.williamsfamilyfoundation.org.uk/

Ffôn: 01244 570 292 neu

e-bost: enquiries@williamsfamilyfoundation.org.uk

CRONFA GYMORTH PENARLÂG A'R CYLCH

Cefnogi anghenion grwpiau cymunedol ac unigolion ym mhlwyf hynafol Penarlâg

Ydych chi'n grŵp neu yn fudiad sy'n gweithio er mwyn cefnogi pobl fregus, NEU, ydych chi eich hun mewn argyfwng?

Os ydych chi, efallai eich bod chi'n gymwys i dderbyn nawdd o Gronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch, gyda grantiau o hyd at £750 ar gael.

Mae plwyf hynafol Penarlâg yn cynnwys y wardiau cyfoes canlynol: Aston, Gorllewin Brychdyn, Bwcle Pentrobin, Ewlo, Penarlâg, Mancot, Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf a Gorllewin Shotton

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gydag Andrea Powell yn Sefydliad Cymunedol yng Nghymru neu

ewch i www.cfiw.org.uk

Rhif ffôn: 02920 879602

E-bost: andrea@cfiw.org.uk

GWIRFODDOLI *Prynhawn o Ddathlu*

Mae dathliadau'r Wythnos Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiadau poblogaidd, sydd wedi eu cynnal ers amser maith, yn y sector gwirfoddol. Rydym ni yma yn FLVC yn falch iawn o'u cynnal. Bu ein dathliad Volfest eleni ar ddydd Gwener Mehefin y 1af yn Ysgol Fusnes Coleg Llaneurgain, un o Golegau Cambria. Mae Wythnos y Gwirfoddolwyr yn gyfle i fod yn rhan o ddigwyddiad dathlu gwaith gwirfoddol mwyaf un Prydain. Hefyd mae'n gyfle i estyn diolch i filoedd o wirfoddolwyr yn Sir y Fflint am eu cyfraniad anhygoel.

Yn ein digwyddiad VolFest, cafodd dros 100 o wirfoddolwyr eu henwebu gan fudiadau a bu iddyn nhw dderbyn tystysgrif i gydnabod eu cyfraniad eithriadol. At hyn, bu i OWL (Online Watch Link) Cymru a Richard Spray o Gyngor Tref yr Wyddgrug dderbyn tystysgrifau Canmoliaeth Uchel fel rhan o Wobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cenedlaethol Cymru y WCVA 2018.

Roeddem ni'n lwcus dros ben o fwynhau perfformiad Iaith Arwyddo Prydain i gerddoriaeth gan Gôr Arwyddo Dyfrdwy. Iaith Arwyddo Prydain (BSL) ydy iaith swyddogol pobl fyddar ym Mhrydain. Mae'r côr yn cyfieithu geiriau nifer o ganeuon poblogaidd i iaith Arwyddo Prydain ac yn eu perfformio mewn digwyddiadau yng Nghaer ac ardaloedd cyfagos. I wybod mwy, gallwch gysylltu â'r côr ar

01244 371372.

Roedd yn ffordd weddus o gloi'r seremoni cyn mwynhau Te Prynhawn!

Diolch yn fawr i bawb wnaeth ddod, ond diolch yn bennaf i'r holl wirfoddolwyr arbennig yn ein sir.



OWL Cymru



Richard Spray –
Mold Town Council



GWIRFODDOLI – Adnodd Digidol newydd

Yng Nghymru, mae 28% o bobl yn datgan eu bod yn gwirfoddoli ar hyn o bryd ac fe gaiff 6 l miliwn awr y flwyddyn eu cynnig i helpu gwella'r gymdeithas Gymraeg a bodloni anghenion a dyheadau pobl.

Bu i Gefnogi Trydydd Sector Cymru lansio adnodd gwirfoddoli digidol newydd i gysylltu gwirfoddolwyr dichonol gyda chyfleoedd gwirfoddoli ledled Cymru. Mae'r adnodd am ddim i wirfoddolwyr ac i fudiadau sy'n dymuno recriwtio. Yn debyg i hen wefan Gwirfoddoli Cymru, gallwch ddod o hyd i gyfleoedd drwy chwilio am eiriau allweddol neu yn unol â phellter o'ch lleoliad. Fodd bynnag, gall wirfoddolwyr hefyd gofnodi eu horiau erbyn hyn a chofnodi'r sgiliau maen nhw'n eu hennill drwy wirfoddoli. Bydd y gwirfoddolwyr yn derbyn bathodynau digidol am wirfoddoli 50, 100 neu 200 awr neu fwy.

Mae cofrestru'n syml a bydd y wefan yn eich atgoffa o'ch ymrwymadau ar y gweill ynghyd â chadw cofnod o'ch cyflawniadau, fydd yn hynod ddefnyddiol er mwyn diweddu'ch CV.

I fudiadau, bydd y system yn help ichi recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, cofnodi oriau gwirfoddoli, cynllunio amserlenni a digwyddiadau, cofnodi hyfforddiant a phrofiad ynghyd â llunio adroddiadau.

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn annog mudiadau i gofrestru ar gyfer yr adnodd newydd rwan hyn drwy ymweld â'u gwefan newydd

www.volunteerwales.teamkinetic.co.uk

Prosiect Pobl Ifanc



Manylion y Cynllun

14-25 oed

Yn dechrau ar ddydd Mercher, 3ydd or Hydref am 8 wythnos, 1 diwrnod yr wythnos – 'Sesiynau blasu' i wirfoddolwyr; mewn lleoliadau amrywiol, fydd yn bodloni sgiliau a blaenoriaethau'r unigolyn Cyfleoedd dysgu anffurfiol er mwyn bwrw golwg ar y sgiliau gofynnol ar gyfer gwirfoddoli ynghyd â'r buddion ynghlwm â chynnig help llaw yn y gymuned Hwb i hyder a gwella sgiliau cymdeithasol Cyfle i ennill cymhwyster achrededig Agored – (Lefel I mewn Gwirfoddoli a Chydweithio Cymunedol) Cefnogaeth i fynd rhagddi i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli prif ffrwd (os yn briodol) Os ydych chi'n byw yn Sir y Fflint ac yn dymuno gwybod mwy am y prosiect, cysylltwch gyda:

debbie.long@flvc.org.uk (01352 744017) neu
chris.ablett@flvc.org.uk (01352 744019)

Cofiwch fod y Ganolfan Wirfoddoli wrthlaw i gefnogi mudiadau Trydydd Sector ac unigolion drwy gynnig y canlynol:

- Cyngor a chyfarwyddyd ar Reoli Ymarfer Da ar gyfer mudiadau gyda gwirfoddolwyr
- Cefnogaeth ar sut i ddefnyddio'r Adnodd Gwirfoddoli Digidol newydd i recriwtio gwirfoddolwyr a chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli
- Cynnig cefnogaeth i bobl sy'n dymuno gwirfoddoli yn Sir y Fflint
- Mynychu digwyddiadau i hyrwyddo gwirfoddoli a recriwtio
- Cynnig prosiectau gwirfoddoli gyda chefnogaeth

Cysylltwch gyda'r tîm yn FLVC i wybod mwy ar info@flvc.org.uk neu ffoniwch 01352 744000 i fanteisio ar unrhyw un o'r uchod.

Pwysig! Paratowch ar gyfer ffurflen flynyddol 2018

Bydd gwasanaeth newydd ffurflen flynyddol y Comisiwn Elusennau ar gael yn fuan. Y llynedd, bu i'r Comisiwn ymgynghori gyda'r sector elusennau ynglŷn â'r ffurflen flynyddol ar gyfer 2018. Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd bellach yn cyflwyno ffurflen flynyddol wedi'i theilwra erbyn diwedd mis Awst. Bydd yn cynnwys cwestiynau newydd gall elusennau ddechrau paratoi ar eu cyfer rŵan ac i rai elusennau bydd hyn yn creu gwaith ychwanegol. Am fwy o wybodaeth:

<https://www.gov.uk/government/news/charity-annual-return-2018>

Ymysg y newidiadau yn 2018,

- gofyniad i ddarparu dadansoddiad o gyflogau ar draws y bandiau incwm, a'r cyfanswm o fuddion gweithiwr i'r aelod sy'n derbyn y tâl uchaf.
- ymholiad a oes gan yr elusen unrhyw is-gwmnïau sy'n masnachu
- mwy o fanylion ynghylch gwariant ac incwm elusennol tramor

.....

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – ydych chi'n barod?

Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ddaeth i rym ar Fai'r 25ain 2018 yn effeithio ar holl fudiadau trydydd sector sy'n cadw a phrosesu data personol buddiolwyr, cyfranwyr ariannol, staff a gwirfoddolwyr.

Beth ydy'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol?

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ddull yr unfed ganrif ar hugain ynghylch diogelu data. Ei ddiben ydy cynnig mwy o ddiogelwch i unigolion ac felly mwy o oblygiadau preifatrwydd ar gyfer mudiadau.

Adnoddau'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ar gyfer mudiadau trydydd sector

Mae WCVA, mudiad Cefnogi Trydydd Sector Cenedlaethol Cymru, wrthi'n cynhyrchu adnoddau GDPR newydd ar gyfer y sector.

Mae WCVA yn cynhyrchu ystod o adnoddau a thempledi gwybodaeth cryno newydd er mwyn cefnogi mudiadau i gydymffurfio gyda'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Ymysg yr adnoddau bydd taflen wybodaeth, gwefan a ffilm fer wedi ei hanimeiddio a fydd yn ymdrin â'r newidiadau allweddol i'r ddeddfwriaeth diogelu data.

Bu WCVA yn cydweithio gyda Hugh James i ddatblygu cyfres o dempledi cydymffurfio gyda'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y bydd mudiadau'r trydydd sector yn medru eu haddasu i fodloni eu gofynion nhw. Ymysg yr adnoddau fydd polisïau diogelu data a chadw dogfennau, rhybuddion preifatrwydd a rhestrau gwirio ar gyfer archwiliadau gwarcho data ac asesiadau effaith preifatrwydd.

Mae Sianel YouTube y WCVA yn arddangos sawl clip fideo ar bynciau er mwyn helpu gyda chydymffurfio gyda GDPR, gan gynnwys Codi Arian a Diogelu Data, Diogelwch Cyber Rhybuddion Preifatrwydd & Chaniatâd a Diogelu Data ar gyfer ymddiriedolwyr.

Gallwch weld sianel youtube y WCVA drwy glicio yma

<https://www.youtube.com/user/walescva>